# 30. FFARWEL

**Darllen:** Marc 16: 14-20

Neges yr Ymgnawdoliad yw i'r Crist ddod i 'r byd i'w eni fel y dyn Iesu. Daeth gwaith Crist ym mywyd Iesu o Nasareth i ben yn awr a dyma ddiwedd hanes ei weinidogaeth ar y ddaear. Y Dyrchafael neu Esgyniad Crist yw diweddglo'r tair efengyl synoptig, gyda Christ yn danfon ei apostolion allan i ddechrau ar eu gwaith, sef bod yn gorff Crist yn eu dyddiau gyda Christnogion eraill yn cymryd eu lle ymhob cenhedlaeth. Mae stori'r Esgyniad wedi creu problemau i nifer o Gristnogion ond disgrifiad yr hanesydd Cynulleidfaol o Gaergrawnt, Bernard Lord Manning, ohono yn yr wythnosolyn '*Christian World'* oedd: 'Y mwyaf Protestannaidd o'r holl wyliau Cristnogol.'[22] Beth, gan hynny, yw neges yr uyl fawr hon? I gael ateb i'r cwestiwn hwn rhaid gofyn dau gwestiwn arall, sef 'Beth yw man cychwyn yr Efengyl a beth yw ei phwrpas terfynol?' I ddeall unrhyw daith, rhaid gwybod am ei dechrau a'i diwedd.

Cred rhai bod hanes yr Efengyl wedi dechrau yn Nasareth, gyda Iesu yn ymadael â'i waith fel saer, ei gartref a'i deulu i gael ei fedyddio gan Ioan, ac yna mynd i Gapernaum ac oddi yno ar hyd a lled y wlad i gyhoeddi'r newyddion da am Dduw a'i gariad mewn gair a gweithred. Os dyna'r man cychwyn, daw'r hanes i ben yn Jerwsalem, mewn goruwch-ystafell yng nghwmni Iesu a'r Deuddeg, gydag Iesu a'i frwydr ysbrydol yng ngardd Gethsemane a dioddefiadau a marwolaeth Iesu ar y groes.

Barn pobl eraill yw bod rhaid mynd yn ôl ymhellach na hynny – i enedigaeth plentyn mewn stabl ym Methlehem a'i fywyd ar y Ddaear. Stori sy'n ymestyn o'r Nadolig i Galfaria ac ymlaen i gladdedigaeth Iesu a'i atgyfodiad o blith y meirw ar y trydydd dydd. Daw'r naill hanes a'r llall tu mewn i hanes. Gwnaeth Iesu addewid i fod gyda ni bob amser, gan addo bywyd tragwyddol i ni a galw arnom i fynd allan i'w ddilyn. Ai dyna'r Newyddion Da?

Ond nid newyddion da amdanom ni mo'r Efengyl! Newyddion Da sydd yma i ninnau a holl blant dynion ym mhob cenhedlaeth. Na, Newyddion Da am Dduw yw'r Efengyl a Newyddion Da oddi wrth Dduw. Ble mae'r man cychwyn? Nid yn Nasareth, nid ym Methlehem ond yn ôl yn y dechreuad. "*Yn y dechreuad, creodd Duw y nefoedd a'r Ddaear*"

(Genesis 1: 1). *"Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw a Duw oedd y Gair'* (Ioan 1: 1).

*Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen,*
*cyn gosod haul na lloer na sêr uwchben,*
*fe drefnwyd ffordd yng nghyngor Tri yn Un*
*i achub gwael, golledig, euog ddyn.*
*(Pedr Fardd, 1775-1845, Caneuon Ffydd, 527)*

Dyma fan cychwyn yr Efengyl – yn Nuw ac yn natur Duw. Ble felly, mae diwedd y stori? Onid yn yr un lle, yn Nuw ei hun? Dyna awgrym Ioan wrth iddo osod hanes y golchi traed yn ei briod gyswllt: '*Dyma Iesu, ac yntau'n gwybod bod y Tad wedi rhoi popeth yn ei ddwylo ef, a'i fod wedi dod oddi wrth Dduw a'i fod yn mynd at Dduw, yn codi o'r swper…'* (Ioan 13: 3-4). Pwrpas y golchi traed a holl ddigwyddiadau eraill bywyd a marwolaeth Iesu oedd cyfieithu neges Duw i iaith y ddaear ac i esbonio'r dechrau a'r diwedd. Pwrpas yr Efengyl, hanes perthynas Duw â'i fyd, yw daearu ei gariad ym mhridd y ddaear a phrofiad plant y ddaear.

Neges ganolog yr Esgyniad yw bod y Mab mewn perthynas â'r Tad na all neb ei dorri, perthynas yn yr Ysbryd Glân. Yn yr un Ysbryd cariad a thrwy'r un Ysbryd ceir yr un perthynas rhwng Crist a ninnau na all neb na dim ei dorri. Datguddiwyd presenoldeb Duw ym mywyd ei Eglwys ac ym mywyd ei fyd. Ni ddaw'r hanes i ben mewn gwagle. Rhaid wrth ddechreuad, canol a diwedd i bob stori dda. Yn stori'r Efengyl, daeth Duw yng Nghrist i'r ddaear oddi wrth Dduw'r Tad, i gyflawni ei waith yma, ac yna dychwelyd at y Tad. Mae hanes Iesu Grist yn llawer mwy na hanes dyn da a'i hunanaberth. Diben yr Esgyniad yw codi'r llen, fel petai, er mwyn i ni weld bod ein bywyd dynol ar y Ddaear yn ymwneud â thaith y ddynoliaeth oddi wrth Dduw ac yn ôl ato.

Crist Iesu yw'r 'Mab Hynaf' a ddaeth oddi wrth y Tad i gyflawni dyletswydd pob mab hynaf, sef mynd i'r wlad bell i geisio a chadw ei frodyr a chwiorydd afradlon, gan gymryd eu lle a derbyn canlyniadau eu hafradlonwyd arno ef ei hun. Daeth i dalu'r pris i'w rhyddhau a'u harwain i gyd yn ôl at ei Dad yntau, y Tad sydd yn caru pob un o'i blant. *"Gwelodd Duw'r cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn"* (Genesis 1: 31) - ai sôn am ddiwedd dechrau'r creu sydd yma, neu ai edrych yr

oedd Duw ar hyd hanes y greadigaeth o'r dechrau hyd at gyflawni popeth yn ôl amcanion ei gariad?

Wedyn, Iesu yw rhagredegydd yr hil ddynol. Onid dyna neges John Henry Newman (1801-1890):

*O'i gariad doeth, ein Duw mewn cnawd*
*trychineb Adda droes*
*yn fuddugoliaeth Adda'r Ail*
*drwy ymdrech eitha'r groes.*
*(Caneuon Ffydd 491)*

Gwnaeth Iesu Grist addewid yn yr oruwch-ystafell: '*Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwi fod lle'r wyf fi'* (Ioan 14: 3). Pan ddaeth Crist i'r ddaear ym mherson Iesu, Duw a ddaeth atom i gael rhan ym mywyd dyn. Wrth i Grist, Mab y Dyn, fynd yn ôl at y Tad, Dyn a aeth ato er mwyn i ddynion gael lle yn ei fywyd.

Iesu hefyd yw prototeip y dyn newydd: '*Yr Oen a laddwyd cyn seiliad y byd'*, yn ôl yr hen gyfieithiad Cymraeg, '*yr Oen a laddwyd'*, medd y cyfieithiad diweddaraf (Datguddiad 13: 8). Yma y cawn gyfle i dderbyn argyhoeddiad Paul, '*Na all dim… a grëwyd ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd*' (Rhufeiniaid 8: 39).

Dangosir hefyd mai'r '*Oen a laddwyd cyn seiliad y byd'* sydd â phob awdurdod a gallu yn ei law. Hwn sy'n gwisgo coron frenhiniaeth ond fe wnaed ar siâp coron ddrain. Yr un *"a ddygodd ein pechodau yn ei gorff ar y croesbren, er mwyn i ni ddarfod â'n pechodau a byw i gyfiawnder"* (1 Pedr 2: 24), yw Arglwydd y Nef, ein cartref, a'r ddaear ein harosfa. Ef hefyd yw Arglwydd y ddaear a'r greadigaeth oll. '*Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd… Ac yn awr yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser'* (Mathew 28: 18, 20).

Daw'r stori, sy'n dechrau gyda'r Nadolig i ben gyda'r Esgyniad. Er mai hon yw'r pwysicaf o holl storïau hanes, dim ond un bennod ydyw yn hanes y Creu. Symuda'r stori ymlaen at bennod arall, pennod sy'n dechrau gyda'r Pentecost. Gorseddu Crist yw'r man lle caiff yr Eglwys ei huchel gomisiwn. Trwy ras, awdurdod ac esiampl Crist, a thrwy waith yr Ysbryd Glân, swyddogaeth yr Eglwys yw byw a gweithredu'r Newyddion Da ar y ddaear, ym mhob man ac ym mhob oes. Gwnaed

ni'n un gyda Christ yng nghenhadaeth Duw i'w fyd. Rhaid cadw ein traed ar y ddaear gan gyfeirio ein calon, ein meddwl a'n hewyllys at Dduw a'i ryfedd ras. I bawb sy'n ymateb i'w alwad, rhydd ei gariad a'i dangnefedd er mwyn iddynt ddangos i'r byd rym gweddnewidiol ei deyrnas. Beth bynnag fydd dyfodol eglwysi ac enwadau, erys cenhadaeth Duw hyd ddiwedd amser, neu, i fod yn gywir, erys amser hyd nes i genhadaeth Duw gael ei chyflawni yn ei gariad ef.

**Gogoneddiad:**

*Teilwng yw'r Oen a laddwyd i dderbyn*
*gallu, cyfoeth, doethineb a nerth,*
*anrhydedd, gogoniant a mawl…*

*I'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen*
*y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r nerth*
*byth bythoedd. Amen.*
(Datguddiad 5: 12, 13)